# Busnes Cymdeithasol Cymru

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

# Egwyddorion Mentrau Cydweithredol

Mae mentrau cydweithredol yn fusnesau sy'n eiddo ar y cyd i'w gweithwyr neu aelodau ac yn cael eu rheoli'n ddemocrataidd ganddynt. Dylai busnesau cydweithredol weithredu o fewn saith Egwyddor Gydweithredol sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol:

**1. Aelodaeth Wirfoddol ac Agored**

Mae mentrau cydweithredol yn sefydliadau aelodaeth agored anwahaniaethol.

**2. Rheolaeth Democrataidd**

Mae mentrau cydweithredol yn sefydliadau democrataidd sy'n cael eu rheoli gan eu haelodau, sy'n cymryd rhan weithredol yn eu prosesau penderfynu. Mae cynrychiolwyr hefyd yn cael eu hethol ac maent yn atebol i'r aelodaeth.

**3. Cyfranogiad Economaidd Aelodau**

Mae aelodau'n cyfrannu'n deg at gyfalaf eu menter gydweithredol ac yn ei reoli'n ddemocrataidd.

**4. Ymreolaeth ac Annibyniaeth**

Mae mentrau cydweithredol yn sefydliadau awtonomaidd, hunangymorth sy'n cael eu rheoli gan eu haelodau. Os ydynt yn llunio cytundebau â sefydliadau eraill, neu'n codi cyfalaf o ffynonellau allanol, maent yn gwneud hynny ar delerau sy'n sicrhau rheolaeth ddemocrataidd gan eu haelodau ac sy'n cynnal ymreolaeth eu menter cydweithredol

**5. Addysg, Hyfforddiant a Gwybodaeth**

Mae mentrau cydweithredol yn darparu addysg a hyfforddiant ar gyfer eu haelodau, eu cynrychiolwyr etholedig, eu rheolwyr a'u gweithwyr er mwyn iddynt gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu mentrau cydweithredol. Maent yn hysbysu'r cyhoedd – yn enwedig pobl ifanc ac arweinwyr barn – ynghylch natur a manteision gweithio'n gydweithredol.

**6. Cydweithio â Mentrau Cydweithredol eraill**

Mae mentrau cydweithredol yn gwasanaethu eu haelodau yn y modd mwyaf effeithiol ac yn cryfhau'r mudiad cydweithredol trwy weithio gyda'i gilydd trwy strwythurau lleol, cenedlaethol, rhanbarthol a rhyngwladol. Mae dysgu gyda'n gilydd yn fodd o wneud cysylltiadau cadarnhaol rhwng sefydliadau, y gellir eu datblygu.

**7. Pryder am y Gymuned**

Mae mentrau cydweithredol yn gweithio er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy eu cymunedau ac yn gwneud hynny trwy bolisïau y cymeradwywyd gan eu haelodau.


Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund